

## **Fel rhan o'n hymateb parhaus i bandemig COVID, rydym yn parhau i asesu'r risgiau sy'n gysylltiedig ag archwiliadau ffisegol ar bob math o eiddo.**

Cafodd ein **Proses archebu** a'n **Hasesiadau Risg Deinamig** ar safleoedd eu cynllunio i'n helpu ni i adnabod a lliniaru'r risgiau i breswylwyr ac i syrfewyr sy'n gysylltiedig ag archwiliadau eiddo.

### **Amodau ar gyfer archwiliad**

Dim ond os na fydd unrhyw un sydd yn yr eiddo yn dangos symptomau COVID-19 y bydd archwiliad yn cael ei gynnal. Mae hyn yn berthnasol i bob math o archwiliad - prisio ac arolygon.

### **Asesiad Risg Deinamig**

Wrth gyrraedd yr eiddo, bydd ein syrfewr yn cynnal Asesiad Risg Deinamig ac efallai y bydd yn gofyn ambell gwestiwn i chi er mwyn sicrhau diogelwch a lles pawb yn yr eiddo. Os bydd y syrfewr yn canfod lefel risg annerbyniol (e.e. pellter cymdeithasol ddim yn cael ei gadw), bydd yr archwiliad yn dod i ben ac yn cael ei aildrefnu ar ddyddiad arall.

### **Cyn ac yn ystod yr archwiliad**

Bydd ein syrfewr yn cysylltu â chi tua 30 munud cyn cyrraedd er mwyn cadarnhau'r apwyntiad. Cyn pob archwiliad, rydym yn argymhell yn gryf y dylai'n syrfewyr a phob preswilydd gymryd camau ychwanegol er mwyn bod yn ofalus:



Cadwch unrhyw gathod a chŵn gyda chi trwy gydol yr archwiliad, ac agorwch pob drws a ffenestr os oes modd



Pan fydd y syrfewr yn cyrraedd, mae'n bosib y gofynnir i chi gadw pellter cymdeithasol tra bydd yr archwiliad yn cael ei gynnal



Bydd gan ein syrfewr PPE a chynnyrch diheintio. Os yw'n gwneud i chi deimlo'n fwy cysurus, gofynnwch i'r syrfewr wisgo gorchudd wyneb drwy gydol yr archwiliad. Mae'n bosib y bydd ein syrfewr yn gofyn i bawb sydd yn yr eiddo wneud hynny hefyd



Bydd y syrfewr yn cynnal yr hyn a elwir yn 'asesiad risg deinamig neu weledol' pan fydd yn cyrraedd a gall atal yr archwiliad os bydd yn teimlo bod unrhyw risg



Mae'n debyg y bydd y syrfewr yn yr eiddo am tua 30 munud, ond gall fod gyda chi am fwy o amser, yn dibynnu ar nodweddion yr eiddo



Caniatewch amser i'r syrfewr baratoi'r holl PPE / cyfarpar cyn yr archwiliad ac ar gyfer glanhau a diheintio popeth ar ôl yr archwiliad



Peidiwch â theimlo'n chwithig, ond ni fydd ein syrfewyr yn gallu derbyn diodydd yn ystod yr archwiliad.